**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR YMDDIRIEDOLWYR ELUSENNAU a gynhaliwyd o bell, drwy fideogynadledda ddydd Dydd Iau, 16 Rhagfyr 2021**

**PRESENNOL:** Cynghorydd Rowland Rees-Evans (Cadeirydd), Cynghorwyr Marc Davies, Elaine Evans, Mark Strong, Wyn Thomas ac Ivor Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Elizabeth Evans (Sylwedydd ac Aelod o adolygiad yr Is-grŵp), Rhodri Evans a Catherine Hughes.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Louise Harries, Cyfreithiwr a Nia Jones, Gwasanaethau Democrataidd.

(2.00pm - 2.15pm)

**1 Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Bryan Davies, Euros Davies a Lyndon Lloyd MBE am nad oedd modd iddynt fod yn y cyfarfod.

**2 Datgelu buddiant personol**

Ni chafodd dim buddiannau personol na buddiannau sy'n rhagfarnu eu datgan.

**3 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021 yn gywir.

*Materion yn codi*

Nid oedd dim materion yn codi.

**4 Derbyn adroddiad ar Ymgynghoriad ynghylch adleoli dwy goflech sy'n gofebau rhyfel yn Hen Ysgol, Tregaron**

Nodwyd, er mwyn bwrw ymlaen i gwblhau gwerthiant Hen Ysgol Tregaron, fod angen adleoli'r tair llechen ynghylch cyn-benaethiaid yr ysgol a'r ddwy goflech ryfel sy'n cofláu cyn-ddisgyblion a gollodd eu bywydau yn y ddau Ryfel Byd. Nodwyd bod Ysgol Henry Richard wedi cytuno mewn egwyddor i adleoli llechi'r cyn-benaethiaid ond mae'r ddwy goflech ryfel wedi'u cofnodi yn Rhestr Genedlaethol Cofebion Rhyfel y Deyrnas Unedig ac felly cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus.

Parodd yr ymgynghoriad am bedair wythnos oddi ar 1 Tachwedd 2021, a chafwyd 72 o ymatebion a ystyriwyd gan Aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau. Nodwyd bod dros hanner yr ymatebwyr yn dymuno i'r coflechi gael eu symud i Ysgol Henry Richard. Ymhlith yr awgrymiadau eraill yr oedd Neuadd Goffa Tregaron, Capel Bwlchgwynt neu Eglwys Tregaron, man gwyrdd cyhoeddus, Amgueddfa Ceredigion a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Nodwyd hefyd fod Pennaeth Ysgol Henry Richard eisoes wedi awgrymu y gellid rhoi'r coflechi rhyfel ar wal neuadd yr ysgol.

Nododd yr Aelodau fod argymhelliad Pwyllgor y Cyn-ddisgyblion yn cyd-fynd â barn y mwyafrif, sef symud y coflechi i Ysgol Henry Richard. Nodwyd bod yr ysgol yn lle addas am fod y coflechi yn cofio'r aberth a wnaed gan gyn-ddisgyblion yn y rhyfeloedd. Mae hanes yn rhan bwysig iawn o addysg disgyblion ac mae'n bwysig nad yw'r bobl hyn yn mynd yn angof.

Pwysleisiodd yr Aelodau mor bwysig oedd symud y coflechi mewn modd diogel gan eu bod yn haeddu parch, ac y dylai hyn ddigwydd cyn gynted â phosib er mwyn iddynt gael eu gweld gan y disgyblion a'r teuluoedd sy'n perthyn i'r rhai sy'n cael eu cofio ar y placiau.

Nodwyd bod Swyddogion wedi cynnal proses drylwyr a theg, wedi cynnwys y gymuned yn y broses honno a bod canlyniad yr ymgynghoriad yn eglur.

Diolchodd yr Aelodau i Louise Harries am ei gwaith o'r cychwyn cyntaf, gan nodi ei bod yn addas y bydd hyn yn dod i fwcwl gyda gosod y placiau yn y man newydd.

Yn dilyn trafodaeth a phleidlais, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor yn unfrydol i adleoli'r coflechi rhyfel yn Ysgol Henry Richard gan ddirprwyo swyddogion i gytuno ar yr union leoliad gydag Ysgol Henry Richard.

**5 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Nid oedd dim materion eraill i'w hystyried.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau a gynhaliwyd ar xx.xx.xxxx**

**Cadeirydd:** _____

**Dyddiad:** _____